# TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL
# LLANDYFAELOG
# COMMUNITY NEWSLETTER



Cae Chwarae Idole

# CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

Croeso i Rifyn Gwanwyn Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf.

Welcome to the Spring Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition.

## Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

| **Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor** | **Council Meeting Dates** |
|---|---|
| 3 Ebrill 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 3 April 7.30pm Llandyfaelog Hall |
| 1 Mai 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog<br>Cyfarfod Blynyddol | 1 May 7.30pm, Llandyfaelog Hall<br>Annual Meeting |
| 5 Mehefin 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 5 June 7.30pm, Llandyfaelog Hall |

Gellir gweld cofnodion ac agenda cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn
Community Council minutes and meeting agenda can be found at

www.llandyfaelog.org.uk

Diolch yn garedig i Star Forge Fabricators am ddarparu mainc newydd yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.

Sincere thanks to Star Forge Fabricators for the provision of a new bench at Llandyfaelog Community Hall.





**<u>Plannu Bylbiau Daffodiliau / Daffodil Bulb Planting</u>**

Mae Cennin Pedr wedi bod yn tyfu ar draws y Gymuned yn dilyn plannu gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog a gwirfoddolwyr. Darparwyd y bylbiau gan y Cynghorydd Sir Tyssul Evans a Chronfa SPF Llywodraeth y DU a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Daffodil’s have been growing across the Community following planting by Llandyfaelog Community Council and volunteers. The bulbs were provided by County Councillor Tyssul Evans and the Carmarthenshire County Council Administered, UK Government SPF Fund.



Tir Gof, Llandyfaelog


Eglwys Llandyfaelog



Glanmorlais


Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan
Supported by

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Noson Cwis Eglwys Llandyfaelog Church Quiz Evening**

Cafwyd noson ddifyr yn Neuadd Gymuned Llandyfaelog ar y 7fed o Fawrth, lle cynhaliwyd cwis i godi arian i Eglwys Llandyfaelog. Cymerodd 18 Tim rhan yn y Cwis. Y tîm buddugol oedd Big Fact Hunt.

Diolch i'r cwisfeistri Llinos Jones ac Eleri Hughes a'r awdur cwis Eleri Hughes.

Diolch i bawb a gefnogodd gyda'r bwffe a'r raffl ac i bawb a fynychodd y noson

An entertaining evening was held at Llandyfaelog Community Hall on the 7th March, where a quiz was held to raise funds for Llandyfaelog Church. 18 Teams took part. The winning team was Big Fact Hunt.

Thanks are noted to the quiz masters Llinos Jones and Eleri Hughes and the quiz writer Eleri Hughes.

Thanks to everyone who supported with the buffet and the raffle and to everyone who attended the evening






FfI San Ishmael Y.F.C

# GREEN GEN CYMRU TOWY TEIFI

## Rhannwch eich barn – ymgynghoriad rhwng 5 Mawrth i 16 Ebrill 2025



**Mae Green GEN Cymru yn datblygu cysylltiad newydd rhwng Parc Ynni Lan Fawr sydd wedi'i leoli i'r dwyrain o Landdewi Brefi, Ceredigion ag is-orsaf newydd y Grid Cenedlaethol yn Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin i helpu i adeiladu rhwydwaith trydan cryfach a mwy gwydn i Gymru sy'n datgloi ynni glân, adnewyddadwy ar gyfer ein busnesau, a'n cymunedau.**

Cymerwch olwg ar ein Llwybr

Rydym wedi diweddaru ein cynigion mewn ymateb i'ch adborth ac asesiadau pellach. Mae nawr modd rhannu eich bar ar y diweddariad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Aliniad llwybr drafft gan gynnwys lleoliadau arfaethedig ar gyfer peilonau.
- Darnau o danddaearu.
- Yr ymgynghoriad hwn yw eich cyfle i rhannu sylwadau a siapio sut y caiff y prosiect ei ddatblygu.

I ddarganfod mwy a darparu adborth ar-lein: **www.greengentowyteifi.com**

| Digwyddiad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| **Capel Bedyddwyr Aberduar,** Glanduar, Llanybydder SA40 9RS | Dydd Iau 20 Mawrth | 14:00 – 19:00 |
| **Neuadd Goffa Llanpumsaint,** Llanpumsaint, Caerfyrddin SA33 6BZ | Dydd Gwener 21 Mawrth | 11:00 – 16:00 |
| **Ysgol Gymunedol Peniel,** Peniel, Caerfyrddin SA32 7AB | Dydd Sadwrn 22 Mawrth | 10:00 – 15:00 |
| **Canolfan Lles Llambed,** Teras Peterwell, Llanbedr Pont Steffan SA48 7B | Dydd Iau 27 Mawrth | 14:00 – 18:00 |
| **Neuadd Gymunedol Llandyfaelog,** Llandyfaelog, Cydweli SA17 5PA | Dydd Gwener 28 Mawrth | 14:00 – 19:00 |
| **Pafiliwn Pencader,** Pencader, Caerfyrddin SA39 9ER | Dydd Sadwrn 29 Mawrth | 10:00 – 15:00 |

GREEN GEN CYMRU

www.greengentowyteifi.com

info@greengentowyteifi.com

0800 915 2496

FREEPOST Green GEN Cymru TT

# GREEN GEN CYMRU TOWY TEIFI

## Have your say – consultation open 5 March to 16 April 2025



**Green GEN Cymru is developing a new connection between the Lan Fawr Energy Park located east of Llanddewi Brefi, Ceredigion to a new National Grid substation at Llandyfaelog, Carmarthenshire to help build a stronger, more resilient electricity network for Wales that unlocks clean, renewable energy for our businesses, and communities.**

View our route

We have updated our proposals in response to your feedback and ongoing assessments. These updates are now ready for you to have your say. These include:

- A draft route alignment including proposed pylon locations.
- Sections of undergrounding.
- This consultation is your opportunity to provide comments and shape how the project is developed.

Find out more and provide feedback online: **www.greengentowyteifi.com**

| Event | Date | Time |
|---|---|---|
| **Aberduar Baptist Chapel,** Glanduar, Llanybydder SA40 9RS | Thursday 20 March | 2pm-7pm |
| **Llanpumsaint Memorial Hall,** Llanpumsaint, Carmarthen SA33 6BZ | Friday 21 March | 11am-4pm |
| **Peniel Community School,** Peniel, Carmarthen SA32 7AB | Saturday 22 March | 10am-3pm |
| **Lampeter Wellbeing Centre,** Peterwell Terrace, Lampeter SA48 7BX | Thursday 27 March | 2pm-6pm |
| **Llandyfaelog Community Hall,** Llandyfaelog, Kidwelly SA17 5PA | Friday 28 March | 2pm-7pm |
| **Pencader Pavillion,** Pencader, Carmarthen SA39 9ER | Saturday 29 March | 10am-3pm |

GREEN GEN CYMRU

www.greengen towyteifi.com
info@greengen towyteifi.com
0800 915 2496
FREEPOST Green GEN Cymru TT

**Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council**

**Cadeirydd/Chairman:**
**Nicola Jones**

**Clerc/Clerk: Arfon Davies**
**Maesmawr**
**Glan-y-Fferi / Ferryside**
**Caerfyrddin / Carmarthen**
**SA17 5YD**
**Ffôn / Tel: 01267 267647**
**Ebost/Email:** Llandyfaelog@btinternet.com
**Gwefan/Website**: www.llandyfaelog.org.uk

## Hyfforddiant Cymorth Cyntaf / First Aid Training

Nodwch os gwelwch yn dda fod trefniadau wedi eu gwneud gydag Ambiwlans Sant Ioan ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Cymunedol ar Nos Lun $9^{fed}$ Mehefin am 7.30yh yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.

Cysylltwch a'r Clerc am wybodaeth pellach. Mae croeso i bawb.

Please note that arrangements have been made with the St John's Ambulance for a Community First Aid Training on Monday $9^{th}$ June at 7.30pm at Llandyfaelog Community Hall.

Please contact the Clerk for more information. Everyone welcome.

**Arfon Davies**
**Clerc / Clerk**

# Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2025

Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn Neuadd Llandyfaelog ar ddydd Sadwrn, Chwefror 8fed. Y beirniaid eleni oedd :- Cerdd – D. Huw Rees, Abertawe; Llefaru – Ivoreen Williams, Capel Hendre; Llên – Gwennan Evans, Caerdydd; Celf a Thechnoleg – Gareth Morgan, Cwmffrwd; Dawns – Huw John, Peniel.

Bu Jonathan Morgan, Y Tymbl (piano) a Kim Lloyd Jones (telyn) yn cyfeilio ar gyfer y cystadlaethau lleol ac agored.

Llywydd prynhawn yr eisteddfod eleni oedd y diweddar Geraint Rees a thalwyd teyrnged iddo gan Gary Anderson gan nodi ei gyfraniad i'r eisteddfod dros y blynyddoedd. Llywydd y nos oedd Huw John, Peniel un a fu'n gefnogol i'w fro ac i'r Eisteddfod dros nifer fawr iawn o flynyddoedd.

Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gan Meirion Jones, Pentrecwrt, Llandysul gyda chywydd ar y testun "Perthyn". Roedd y gadair hardd yn rhoddedig gan Yvonne Lewis, Craigfryn a theulu Moelfre Uchaf. Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Ifan Gruff, Deganwy, Bae Colwyn a chyflwynwyd y fedal a'r wobr ariannol gan Huw John, Peniel.

Cyflwynwyd Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i Gwenllian Jones, Ysgol Gwenllian am fod y cystadleuydd lleol o dan 11 oed sydd yn dangos yr addewid fwyaf. Cyflwynwyd Ysgoloriaethau Dr. Ron a Mrs. Betty Rees i'r cystadleuydd gorau yn lleol o dan 16 oed i Morus Jones, Ysgol Llangynnwr (cerddoriaeth) ac i Enfys Jones, Ysgol Llangynnwr (llefaru). Cyflwynwyd Tarian Goffa Geraint Rees am y tro cyntaf eleni, sef y darian her i'r ysgol leol uchaf ei marciau i Ysgol Llangynnwr.

Mae aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a chefnogaeth tuag at lwyddiant yr eisteddfod. Dyma restr o'r buddugol ymhob cystadleuaeth.

**CERDD** (lleol)
Unawd Bl. 1 a 2 – 1. Greta Wyn, 2. Ilan-Rhun Phillips, 3. Medi Hughes-Holding; Unawd Derbyn ac iau – 1. Havanna Havard, 2. Ela Millard, 3. Gwenllian Turner; Unawd Bl. 3 a 4 – 1. Bronwen Symmons, 2. Beca Davies, 3. Alaw Evans; Unawd Bl. 5 a 6 – 1. Gwenllian Jones, 2. Enfys Jones, 3. Cydradd, Isabel Hughes ac Alys Gibbard; Unawd offeryn cerdd ysgolion cynradd – 1. Morus Jones, 2. Isabel Hughes, 3. Alaw Evans; Unawd cerdd dant Bl. 6 ac iau – 1. Gwenllian Jones, 2. Bronwen Symmons, 3. Cydradd, Greta Wyn ac Ilan-Rhun Phillips; Unawd alaw werin Bl. 6 ac iau – 1. Enfys Jones, 2. Gwenllian Jones, 3. Cydradd, Ilan-Rhun Phillips ac Alaw Evans; Unawd Goffa Geraint Rees, emyn Bl. 6 ac iau – Gwenllian Jones, 2. Ilan-Rhun Phillips, 3. Cydradd, Isabel Hughes a Greta Wyn; Parti unsain dan 16 – 1. Bl. 5 a 6 Ysgol Llangynnwr, 2. Ysgol Gwenllian, 3. Cydradd, Ysgol Llangynnwr 1 a 2, Ysgol Llangynnwr 3 a 4; Deuawd Bl. 6 ac iau – 1. Gwenllian Jones a Bronwen Symmons, 2. Anwen Jones a Greta Jones; Unawd offeryn cerdd Bl. 7 ac o dan 19 oed – 1. Cydradd, Thomas Flannigan a Mali Edwards.

**DAWNS** (lleol)
Grŵp dawns stepio/gwerin – 1. Cŵl Dŵds Glyndŵr, 2. Ysgol Llangynnwr; Grŵp dawnsio disgo/hip-hop/stryd, 1. Gals Gwenllian.

**LLEFARU** (lleol)
Llefaru Bl. 1 a 2 – 1. Ilan-Rhun Phillips, 2. Greta Wyn, 3. Cydradd, Medi Hughes-Holding a Sianco Davies; Llefaru Derbyn ac iau – 1. Ela Millard, 2. Havanna Havard. Llefaru Bl. 3 a 4 – 1. Beca Davies,

2. Alaw Evans, 3. Cydradd, Tomos Wyn Cooper a Anna Williams; Llefaru Bl. 5 a 6 – 1. Enfys Jones, 2. Alys Evans, 3. Cydradd, Isabel Hughes ac Alys Williams.

**CELF A THECHNOLEG** (lleol)
Celf dosbarth derbyn a iau – 1. Kaspar Randall, Ysgol Glanyfferi, Cauis Thomas, Ysgol Glanyfferi, 3. Miriam Haf Wyn, Ysgol Llangynnwr; Celf Blwyddyn 1 a 2 – 1. Ilan-Rhun Phillips, Ysgol Llangynnwr, 2. Ilan-Rhun Phillips, Ysgol Llangynnwr, 3. Isabelle Lines-Zechmann, Ysgol Mynydd-y-garreg; Celf Blwyddyn 3 a 4 – 1. Brodie Evans, Ysgol Glanyfferi, 2. Poppy Corbett, Ysgol Glanyfferi, 3. Manon Tremlett, Ysgol Mynydd-y-garreg; Celf Blwyddyn 5 a 6 – 1. Xavier Thomas, Ysgol Glanyfferi, 2. Lili, Ysgol Llangynnwr, 3. Steffan Green, Ysgol Mynydd-y-garreg; Ffotograffiaeth Bl. 1-6 – 1. Ilan-Rhun Phillips, Ysgol Llangynnwr, 2. Ilan-Rhun Phillips, Ysgol Llangynnwr. Technoleg Gwybodaeth Bl. 1-6 – 1. Isabel Hughes, Ysgol Llangynnwr,

**CERDD** (agored)
Unawd Bl. 1 a 2 neu iau – Ifan Wyn Morris; Unawd Bl. 3 a 4 – Heti Glyn Thomas; Unawd Bl. 5 a 6 – Greta Jones; Unawd cerdd dant Bl. 6 ac iau – Greta Jones; Unawd alaw werin Bl. 6 ac iau – Ifan Wyn Morris; Unawd emyn Bl. 6 ac iau – Gwern Bowen; Unawd Bl. 7 – 9 – Iwan Thomas; Unawd cerdd dant Bl. 7 ac o dan 19 oed – Iwan Thomas; Unawd emyn Bl. 7 ac o dan 19 oed – Iwan Thomas; Unawd alaw werin Bl. 7 ac o dan 19 – Cydradd, Iwan Thomas ac Ioan Anderson; Unawd piano/offerynnol dan 19 – Mali Edwards; Parti/côr mudiadau lleol – Eglwys Sant Maelog; Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru – Only Mynydd Aloud; Unawd goffa Geraint Rees emyn agored – David Mayberry; Her unawd – David Mayberry; Cenwch i'm yr Hen Ganiadau – David Mayberry.

**LLEFARU** (agored)
Llefaru Bl. 1 a 2 neu iau – Martha Evans; Llefaru Bl. 3 a 4 – Greta Evans; Llefaru Bl. 5 a 6 – Alis Glyn Thomas; Llefaru Bl. 7, 8 a 9 – Cydradd, Iwan Thomas a Gwion Bowen; Her adroddiad dan 30 oed – Gwion Bowen; Adroddiad/llefaru digri agored – Gwion Bowen; Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd, dros 19 – Angharad Wyn.

**LLENYDDIAETH**
Y Gadair – Meirion Jones, Pentrecwrt, Llandysul; Tlws yr Ifanc – Ifan Gruff, Deganwy, Bae Colwyn; Englyn – Siw Harston, Staines, Middlesex; Gorffen Limrig – Delyth Wynne Rees, Machynlleth; Blwyddyn 10 ac o dan 19 oed, Araith ar bwnc llosg – Anna Jones, Llanarthne; Blwyddyn 7 – 9, erthygl papur bro – Owain Rhys Jones, Llangollen; Bl. 1-6 ysgolion cynradd lleol – 1. Greta Wyn, Ysgol Llangynnwr, 2. Ilan-Rhun Phillips, Ysgol Llangynnwr.



**Llun Bardd y Gadair 2025 -** Mae’r llun yn dangos Bardd y Gadair 2025 Meirion Jones, Pentrecwrt, Llandysul gyda’r beirniad llên Gwennan Evans, aelodau’r Orsedd a noddwyr y cystadlaethau llên.



**Llun cyflwyniad -** Gary Anderson yn cyflwyno Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i Gwenllian Jones i’r cystadleuydd lleol ym Mlwyddyn 6 cynradd ac iau sy’n dangos yr addewid fwyaf.